



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

## Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

**11 Ionawr 2019**

**9:00 am – 1:30 pm**

**Optic, Llanelwy**

Yn bresennol:	Teresa Owen (cadeirydd), Bethan Jones Edwards, Bethan E Jones, Alwyn Jones (yn bresennol ar ran Caroline Turner), Chris Stockport, Cllr Bobby Feeley, Cllr Christine Jones, Cllr Joan Lowe, Cllr Liz Roberts, Dave Worrall, Ffion Johnstone, Jennie Lewis, Llinos Medi Huws, Lynda Colwell, Marian Wyn Jones, Mark Wilkinson, Mary Wimbury, Morwena Edwards, Craig Macleod (yn bresennol ar ran Neil Ayling), Owain Llewellyn (yn bresennol ar ran Neill Anderson), Nicola Stubbins, Peter Williams, Rob Smith (cyrhaeddodd am 10:00 am)
Ymddiheuriadau:	Cyng. Gareth Roberts, Caroline Turner, Jenny Williams, Judith Greenhalgh, Kevin Roberts, Neil Ayling, Wendy Jones, Shan Lloyd Williams, Neill Anderson, Liz Hughes, Charlotte Walton, Clare Budden, Richard Weigh
Hefyd yn Bresennol:	Sue Morgan, Cyfarwyddwr Cenedlaethol ac Arweinydd Rhaglen Strategol dros Ofal Sylfaenol ac yn y Gymuned a Karin Phillips Dirprwy Gyfarwyddwr, Tîm Gofal Sylfaenol, Llywodraeth Cymru (ar gyfer eitem 2 ar y rhaglen) Jane Green, Rheolwr Ymgysylltu Confederasiwn GIG Cymru (ar gyfer eitem 4 ar y rhaglen)

Eitem		Camau gweithredu
1.	<u>Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau</u> Croesawodd TO bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.	
2.	<u>Cofnodion y cyfarfod blaenorol a chamau gweithredu.</u> Mae cofnodion cyfarfod 13 Rhagfyr wedi eu dosbarthu fel rhan o becyn y cyfarfod. Gofynnwyd i aelodau gysylltu os oes unrhyw faterion o ran cywirdeb. Bydd y camau gweithredu yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf.	

<p>3.</p>	<p><u>Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol</u></p> <p>Roedd Sue Morgan a Karin Phillips yn bresennol i roi cyflwyniad ar y 'Model Gofal Sylfaenol ar gyfer Cymru'.</p> <p>Dyweddodd SB bod y Cynllun Gofal Sylfaenol yn nodi pum maes blaenoriaeth a gafodd eu gyrru i ddechrau gan ansefydlogrwydd y gwasanaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynllunio gofal yn lleol</li> <li>• Gwella mynediad a safon</li> <li>• Mynediad teg</li> <li>• Gweithlu lleol medrus</li> <li>• Arweinyddiaeth gref</li> </ul> <p>Y meysydd gwaith strategol allweddol sydd eu hangen er mwyn mynd ymlaen â gweithredu'r model gofal sylfaenol ar gyfer Cymru yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y chwe ffrwd gwaith gofal sylfaenol allweddol       <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Atal a lles</li> <li>2. Model 24/7</li> <li>3. Technoleg ddigidol</li> <li>4. Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol</li> <li>5. Cyfathrebu ac ymgysylltu</li> <li>6. Trawsnewid a'r Weledigaeth ar gyfer Clystyrau</li> </ol> </li> <li>• Gweithio di-dor ar draws y Byrddau Iechyd a gyda sefydliadau partner.</li> <li>• Diwygio contract gofal sylfaenol.</li> </ul> <p>Nid yw'r chwe ffrwd gwaith a nodir uchod i fod i ddisodli gwaith sydd wedi'i gynllunio neu sydd yn digwydd ar lefel leol gan glystyrau, byrddau iechyd, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol neu i dorri ar draws gwaith trawsnewidiol ehangach, ond yn hytrach i ategu at, a sicrhau graddfa a rhediad y trawsnewid.</p> <p>Roedd ymateb 'Cymru Iachach' yn llywio cyfeiriad y Model Gofal Sylfaenol ar gyfer Cymru, sy'n ddull system gyfan ar gyfer gofal lles ac iechyd lleol cynaliadwy a hygyrch.</p> <p>Roedd y 24 prosiect a adolygwyd ar sail 'Unwaith ar gyfer Cymru' wedi darparu negeseuon allweddol ar y pryd (2015-18) drwy'r rhaglen ysgogi arloesi; ystod gynhwysfawr o fentrau, wedi'u cyllido gan Lywodraeth Cymru i ysgogi arloesi a hybu ail-ddylunio gwasanaethau gofal sylfaenol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Clwstwr Gofal Sylfaenol y Tîm Aml Ddisgyblaeth yw'r ffordd ymlaen</li> <li>• Brysbennu diogel ac effeithiol sy'n atgyfeirio pobl ar y gweithwyr proffesiynol iawn yn y tîm</li> <li>• Timoedd integredig yn sicrhau dull cyfannol tuag at ofal – lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol.</li> <li>• Rhaid i wasanaethau weithio'n dda tu mewn a thu allan i oriau.</li> <li>• Mae llwyddiant hefyd yn dibynnu ar gyhoedd gwybodus.</li> </ul>	
-----------	--	--

Amlygodd MW y diffyg cyfeiriad at ddarparwyr gofal yn y cyflwyniad, gyda darparwyr gofal yn allweddol i ddarparu gofal ar gyfer dinasyddion diamddiffyn a'r gweithlu, a gofynnodd sut fydd hyn yn cael ei ddatblygu i sicrhau cynhwysiant yn y gwaith clwstwr.

Cadarnhaodd SM y bydd y model 24/7 cyfun yn cael ei ystyried yn ehangach gyda holl bartneriaid o fewn y system.

Holodd JL os oedd rôl hanfodol y gofalwr teulu di-dâl wedi cael ei nodi fel rhan o'r gwaith hwn, gyda chynrychiolwyr gofalwyr yn rhan o ddatblygiad y gwaith a nododd hefyd y byddai'r trydydd sector a sefydliadau eraill wedi gwerthfawrogi bod yn rhan o'r cynllunio o'r dechrau yn hytrach na chael eu gwahodd i gymryd rhan ar y diwedd.

Cadarnhaodd SM bod rhan o'r gwaith hwn yn rhedeg drwy'r thema a'u bod wedi'u hymrwymo i ystyried yr argymhelliad hwn.  
Cadarnhaodd SM hefyd nad oedd cynrychiolwyr gofalwyr/trydydd sector yn rhan o'r rhaglen, dim ond yn y prosiectau sy'n llywio'r model.

Holodd DW sut y gallwn sicrhau bod cynrychiolwyr y trydydd sector yn rhan o'r gwaith clwstwr, gan fod cynrychiolwyr y trydydd sector yn awyddus iawn i gymryd rhan, ond bydd angen iddynt gael eu gwahodd i gymryd rhan.

Sicrhaodd Chris Stockport y trydydd sector bod cynrychiolaeth gan holl bartneriaid yn hanfodol wrth gynllunio a darparu gwaith clwstwr. Mae cyfrifoldeb mawr o fewn y maes lechyd ac mae cydweithredu gyda holl bartneriaid yn allweddol i'r ddarpariaeth hon.

Diolchodd MWJ i SM am ei chyflwyniad ac amlygodd y pwynt a wnaed, bod llwyddiant yn ddibynnol ar y cyhoedd a holodd beth oedd y dull gorau o hysbysu'r cyhoedd.

Dywedodd SM eu bod yn cynnig cysylltu â Llywodraeth Cymru a dysgu o ymgyrchoedd cenedlaethol llwyddiannus blaenorol yng Nghymru e.e. ymgyrch rhoi organau.

Nododd ME bod y cynnig Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol wedi bod yn heriol i bawb a nododd bod angen ystyried y canlynol:

- Alinio polisiau a chyfeiriadau – mae'n ymarferol i'r bwrdd fod yn gyfrifol am y gyllideb wrth weithio mewn clwstwr gyda'r bwrdd a sefydliadau eraill.
- Mae angen hyblygrwydd gydag unrhyw waith â ffiniau proffesiynol.

Cytunodd SM o ran polisiau Llywodraeth Cymru bod neges glir bod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn bwysig iawn o ran newidiadau trawsnewidiol.

	<p>Mae ffiniau proffesiynol yn gyrru hyder y cynnig yn y system drwy weithio gyda chydweithwyr ysbytai ac atgyfeirio pobl i'r gwasanaethau maent eu hangen ar unwaith.</p> <p>Ychwanegodd BJE bod ymateb Gogledd Cymru i 'Gymru Iachach' yn gweddu â'r model a gyflwynwyd. Cadarnhaodd SB y gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ar wefan Gofal Sylfaenol Un GIG Cymru.</p> <p>Diolchodd TO i SM a KP am fynychu'r cyfarfod a darparu diweddariad defnyddiol ar Ofal Sylfaenol a gwaith clwstwr sy'n amserol iawn ac yn unol â'r gwaith trawsnewid sydd ar ddigwydd yng Ngogledd Cymru.</p>	
<p>3.</p>	<p><u>Cynllun 3 Blynedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr</u></p> <p>Cyflwynodd MW yr angen i ddatblygu Cynllun Drafft Tair Blynedd PBC 2019/2022. Y trosolwg hwn yw'r cyflwyniad i ddechrau'r broses, a fydd yn cynnwys cyfle i holl sefydliadau ymgysylltu yn natblygiad y cynllun 3 blynedd. Mae'r llinell amser fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 11.01.2019 – Cyflwyniad i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru - caiff y cynllun drafft ei ddsbarthu yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 14.01.2019 i'r holl aelodau.</li> <li>• 25.01.2019 – Caiff y cynllun ei gyflwyno yng nghyfarfod y Grŵp Arweinyddiaeth.</li> <li>• 08.03.2019 – rhaglen ar gyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer trafodaeth a 'chefnogaeth'.</li> <li>• 28.03.2019 – i Fwrdd IechydPrifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer ei gymeradwyo.</li> </ul> <p>Rhoddodd MW drosolwg o'r cynllun sy'n cynnwys y weledigaeth, gwerthoedd, blaenoriaethau craidd a galluogwyr. Mae Prifysgol Betsi Cadwaladr fel darparwyr wedi ceisio canolbwyntio ar nifer cyfyngedig o ddarpariaethau a gaiff eu cyflawni yn effeithiol drwy amcanion SMART, wrth fod yn realistig o'r hyn y gellir ei gyflawni yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Pwysleisiodd MW hefyd, mai'r unig ffordd o gyflawni'r gwaith yw drwy gydweithio a chydabu'r newidiadau sy'n digwydd i gyflawni'r nod.</p> <p>Croesawodd MW y bwriad i'r cynllun gael ei ddsbarthu gan aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a gwerthfawrogir holl adborth. Cadarnhaodd MW y bydd cydweithwyr Prifysgol Betsi Cadwaladr o Berfformio a Chynllunio ar gael i ymweld â sefydliadau i gyflwyno'r cynllun yn ystod 2 fis y cyfnod ymgysylltu.</p> <p>Cododd y Cynghorydd BF bryderon o ran materion CHC, ac awgrymodd y dylai hyn fod yn fwy amlwg o fewn yr adroddiad.</p> <p>Roedd CS yn cydnabod y materion hyn a chadarnhaodd y bydd adroddiad CHC yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y llywodraeth leol ar ddiwedd Ionawr a thrafododd sut y bydd y materion hyn yn gweithio i bawb.</p>	<p>Aelodau'r bwrdd i anfon neges e-bost gyda holl adborth i MW</p> <p>Rhaglen ym mis Mawrth ar gyfer diweddariad</p>

	<p>Datganodd JL ei barn bersonol nad oes mantais o gael gwasanaethau MH a LD gyda'i gilydd a holodd os fyddai MW yn barod i drafod hyn ymhellach.</p> <p>Cytunodd MW i drafod y mater gyda JL tu allan i gyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.</p> <p>Pwysleisiodd MWJ bwysigrwydd cydweithio ar y cynllun ac anogodd bawb i gymryd y cyfle i ymateb a rhoi adborth.</p> <p>Holodd CM sut mae ffrwd gwaith 'Plant gydag Anghenion Cymhleth' yn cael ei gynnwys yn y clystyrau, gan weithio gyda CAMHS a Gofal yn Nes at y Cartref.</p> <p>Cadarnhaodd BJ y bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y cynllun.</p> <p>Holodd MW pryd y bydd darparwyr yn cymryd rhan yn y drafodaeth CHC, yn arbennig gan nad oes cynrychiolwyr darparwyr yng nghyfarfod nesaf y llywodraeth leol.</p> <p>Dywedodd CS bod y mater yn achosi pryder o amgylch y bwrdd a bydd yr adroddiad i'r llywodraeth leol yn canolbwyntio ar faterion penodol, i ddeall sut i symud ymlaen gyda'r prosesau asesu.</p> <p>Dwedodd MW, o ran asesiadau, y byddai'n fuddiol cynnwys y staff hynny sy'n darparu gofal dydd i ddydd ac yn cynnal asesiadau</p>	
<p>4.</p>	<p><u>Gweithdy 'Beth sy'n Bwysig'</u></p> <p>Mynychodd Jane Green, Rheolwr Ymgysylltu Conffederasiwn GIG Cymru y cyfarfod er mwyn cynnal gweithdy 'Beth sy'n Bwysig' gydag aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn adolygu gweledigaeth a blaenoriaethau'r bwrdd.</p> <p><u>Camau Gweithredu Nesaf:</u></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. JG i ail-ymweld ag ymarfer gweledigaeth y gweithdy ac anfon yr argymhellion ar gyfer cynigion gweledigaeth newydd/diwygiedig i gael eu hystyried gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.</li> <li>2. Yn dilyn trafodaeth fuddiol ar flaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, roedd holl aelodau'r bwrdd yn gytûn mai blaenoriaethau'r Bwrdd oedd cynigion Trawsnewid 'Cymru Iachach', mae'r cynigion hyn hefyd yn alinio â'r blaenoriaethau presennol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol</li> <li>• Ymyrraeth gynnar integredig a chefnogaeth ddwys i blant a phobl ifanc</li> <li>• Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru</li> <li>• Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: Gwasanaethau di-dor i bobl ag anableddau dysgu.</li> </ul> </li> <li>3. JG i fynychu cyfarfod y bwrdd ym Mawrth 2019 i drafod ymhellach.</li> </ol>	

	Diolchodd TO i JG am gymryd amser i fynychu er mwyn cynnal y gweithdy heddiw, a oedd yn drafodaeth agored fuddiol i bawb.	
	<b>Dyddiad y cyfarfod nesaf:</b> Dydd Gwener 8 Chwefror 2019 9:00 am – 12:30 pm	